# Rhowch eich barn am ein Cod Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol

Rydyn ni eisiau clywed eich barn am ein Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol.

Cyhoeddwyd gyntaf: 20 Medi 2023

Diweddariad olaf: 6 Hydref 2023

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/cymorth-cyflogwyr-arolwg-cod-ymarfer am y fersiwn diweddaraf.

Rhowch eich barn!

Rydyn ni eisiau clywed eich barn am ein Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol.

Ydych chi’n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth? Hoffem glywed eich barn am ein Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol.

### Beth yw’r Cod, a pham mae’n bwysig?

Mae’r Cod Ymarfer Proffesiynol yn dweud wrth weithwyr gofal cymdeithasol sut mae’n rhaid iddyn nhw ymddwyn yn eu swyddi.

Gallwch weld y Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol yma, neu mae fersiwn hawdd ei darllen ar gael yma.

Rydym yn diweddaru’r Cod i wneud yn siŵr bod gweithwyr gofal cymdeithasol yn gallu darparu gofal o’r ansawdd gorau.

Dyma fan cychwyn proses hir, lle byddwn yn siarad â phobl sy’n gweithio yn y sector a phobl sy’n defnyddio gwasanaethau gofal. Bydd y diweddariadau’n digwydd yn 2025.

Rydym ni eisiau gwybod sut mae pobl sy’n defnyddio neu’n dod i gysylltiad â gwasanaethau gofal a chymorth yn teimlo am y Cod.

Rydym hefyd eisiau gwybod a oes pethau y dylid eu hychwanegu, eu dileu neu eu newid yn eich barn chi. Neu a oes ffordd well o ddangos y Cod a chyfleu’r negeseuon allweddol.

## Sut gallwch chi gymryd rhan

Llenwch ein harolwg. Arolwg byr yw hwn, a dim ond pump i ddeg munud ddylai gymryd i'w lenwi.

Bydd mwy o gyfleoedd hefyd i gymryd rhan yn y gwaith hwn yn y dyfodol.

Cysylltwch â Maddy Thompson – maddy.thompson@urbanforesight.org i gymryd rhan.